

Newyddlen Ysgol Addysg

Hydref 2017

Croeso gan Dr Steve Atherton, Cyfarwyddwr Astudiaethau Israddedig

Rwyf yn falch o rannu'r newyddion da a gawsom yn ddiweddar yn yr Ysgol Addysg gyda chi. Tra cydnabuwyd ein hadran o fewn y brifysgol am ein hymroddiad a'n dull sy'n ymrwymedig i'n myfyrwyr, ein canlyniadau NSS eleni oedd y gorau erioed. Golyga hyn fod yr Ysgol Addysg yn derbyn cydnabyddiaeth genedlaethol yn ogystal. Hoffwn longyfarch fy nghyd-weithwyr - mae hyn yn deyrnged i'w hymdrech a'u gwaith caled.



98% o fyfyrwyr (14% yn uwch na chyfartaledd y DU) Cyntaf yng Nghymru ac yn ail yn y DU

Crynhodd myfyrwyr blwyddyn olaf Addysg ac Astudiaethau plentyndod eu profiadau yn yr Ysgol Addysg drwy ymateb yn hynod gadarnhaol yn Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (NSS). Pan gyhoeddwyd y canlyniadau ar ddydd Mercher, 9 Awst, datgelwyd bod yr Ysgol Addysg wedi derbyn sgôr boddhad cyffredinol o 98% o'i gymharu â ffigur cyfartalog y DU ar gyfer Addysg, sef 84%. Rydym yn hynod falch bod y canlyniad hwn nid yn unig yn ein gosod ni yn y safle cyntaf yng Nghymru ond yn ogystal yn ein rhoi ni yn yr ail safle yn y Deyrnas Unedig. Gwnawn ein gorau i adeiladu perthynas gefnogol, ac mewn ymatebion i'n Pwyllgor Ymgynghorol Staff/Myfyrwyr (SSCC), canmolodd myfyrwyr ein 'gofal bugeiliol anhygoel' a dywedwyd bod y staff "Bob amser yno i gefnogi, boed yn academiaidd neu'n bersonol."

100% mewn cyflogaeth neu astudiaeth bellach (DLHE 2017)

Ystyria'r Ysgol Addysg bod ei chyfrifoldeb tuag at ei myfyrwyr yn fwy na llwyddiant graddio. Hoffem longyfarch graddedigion y llynedd - roedd pob un ohonynt naill ai yn dilyn astudiaeth bellach neu mewn gwaith chwe mis ar ôl graddio.

Dywedodd y Cydgysylltydd Cyflogadwyedd, Dr Megan Harnett, "Rydym yn darparu cynadleddau a seminarau yn cwmpasu popeth o addysgu i ddechrau eich busnes eich hun. Gorau po fwyaf o ddigwyddiadau mae myfyrwyr yn eu mynychu er mwyn gwireddu eu potensial eu hunain."



Dosbarth 2016

Llongyfarchiadau ar eich llwyddiant

Clod gan fyfyrwyr

Yn flynyddol, mae Prifysgol Aberystwyth yn gwahodd myfyrwyr i enwebu staff ac adrannau ar gyfer gwobrau. Nid yw'r gwobrau wedi eu seilio ar nifer o bleidleisiau; fe'u seilir ar beth mae myfyrwyr yn ei ddweud. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu'r Ysgol Addysg yn Adran y Flwyddyn ddwywaith (2013 a 2016). Enwyd aelodau staff unigol hefyd yn Diwtor Personol y Flwyddyn (Dr Susan Chapman yn 2016, gyda Dr Rosemary Cann yn ail) a Goruchwyliwr y flwyddyn (Dr Steve Atherton yn 2016)

Addysgu da (NSS 2017) Rydym yn falch o gyhoeddi bod 93% o fyfyrwyr ein trydedd flwyddyn eleni wedi datgan eu bod yn fodlon gyda'r addysgu ar eu cwrs yn yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol. Yn fwy pleserus byth, dangosodd yr NSS bod 100% - hynny yw, ein holl raddedigion - yn meddwl bod y staff yn dda am egluro pethau.

Gwnawn hyn gyda chymorth ein myfyrwyr

Un o'r prif resymau pam rydym wedi gallu gwella ein darpariaeth yw oherwydd y ddeialog sydd gennym gyda'n myfyrwyr. Oherwydd eu hawgrymiadau adeiladol, rydym wedi addasu'r modiwl traethawd hir yn y drydedd flwyddyn. Hefyd rydym wedi sicrhau bod cydbwysedd o eLyfrau a chopïau caled ar gael yn y Llyfrgell ac fe gynyddwyd yr amser cyswilt. Yn ddiweddar, rydym wedi adfer yr Wythnos Darllen oherwydd dywedodd myfyrwyr eu bod yn gwerthfawrogi'r amser hwn.

Mewn ymateb i'n pwyllgor SSCC dywedodd un myfyriwr, "Diolch i chi am yr holl gymorth, a'r gwelliannau sydd wedi eu gwneud." Ein hateb yw, "Fyddem ni ddim yn gallu gwneud hynny heboch chi."